





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Fferylliaeth Glinigol yn Ysbytai'r GIG yng Nghymru



Ymateb gan Lywodraeth Cymru

Medi 2023

1. Cefndir

Gwasanaethau fferylliaeth mewn ysbytai

Rhoi presgripsiwn am feddyginiaeth yw'r ymyriad gofal iechyd mwyaf cyffredin yn y GIG. Mae cyflenwi meddyginiaeth yn parhau i fod yn rhan fawr o wasanaeth fferylliaeth ysbytai ac mae fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gaffael a chynhyrchu meddyginiaethau. Yn ogystal, mae gan dimau fferylliaeth rôl ehangach mewn timau gofal iechyd yn sgil eu cyfraniad at y gwaith o fonitro a gwella effeithiolrwydd a diogelwch meddyginiaethau a ddefnyddir mewn ysbytai.

Mae ymarfer fferylliaeth ysbytai yn canolbwyntio fwyfwy ar gleifion ac mae wedi'i ddisgrifio fel yr injan arloesi ar gyfer gwasanaethau fferylliaeth.¹ Wrth i ddefnydd, cymhlethdod a gwariant ar feddyginiaethau gynyddu, mae ymarfer fferylliaeth ysbytai wedi bod ar flaen y gad yn ehangu rôl glinigol fferyllwyr, ac yn fwy diweddar technegwyr fferyllol.

Beth yw fferylliaeth glinigol?

Mae fferylliaeth glinigol yn un elfen o wasanaethau rheoli meddyginiaethau a fferylliaeth a ddarperir gan dimau fferylliaeth integredig. Mae'n cynnwys cyfres o swyddogaethau sy'n hyrwyddo defnydd diogel, effeithiol a darbodus o feddyginiaethau ar gyfer cleifion unigol.²

Mae galw mawr am sgiliau fferylliaeth glinigol yn y GIG lle mae arbenigedd gweithwyr proffesiynol fferylliaeth yn chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael â'r defnydd is-optimadd o feddyginiaethau, amlgyffuriaeth, lefelau uchel o dderbyniadau cysylltiedig â meddyginiaeth y gellid eu hosgoi, cynnydd mewn ymwrthedd gwrthficrobaidd, costau therapiwtig cynyddol, a chynorthwyo'r tîm gofal iechyd ehangach i ymdopi â chymhlethdod cynyddol meddyginiaethau.

Mae'r maes fferylliaeth ysbytai wedi bod ar flaen y gad yn dangos sut y gellir defnyddio arbenigedd clinigol fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gleifion. Mae llawer o fferyllwyr ysbytai bellach yn bresgripsiynwyr, ac mae technegwyr fferyllol mewn ysbytai yn ymgymryd â mwy o rolau clinigol. Fodd bynnag, mae cryn amrywiaeth rhwng ysbytai gwahanol, gan gynnwys rhwng gweithgareddau clinigol fferyllwyr, y gwasanaethau a gynigir i arbenigeddau gwahanol, strwythur y gweithlu fferylliaeth, trefniadau rheoli a'r diwylliant arweinyddiaeth, ac a yw fferyllwyr yn cael eu trefnu fel rhan o'r gwasanaethau clinigol neu fel rhan o'r adran fferylliaeth. Mae cyfleoedd ar gael i sicrhau bod manteision ymarfer fferylliaeth glinigol yn cael eu blaenoriaethu a'u bod ar gael yn fwy cyson i'r rhai sydd â'r angen mwyaf, gan gynnwys ym meysydd llai traddodiadol a thu allan i ysbytai wrth i fwy o ofal gael ei ddarparu yn y gymuned yn nes at y cartref.

1 Farrar K. Hospital pharmacy: thinking the unthinkable. *The Pharmaceutical Journal*, PJ, Ionawr 2000;(0):DOI:10.1211/PJ.2000.20000004

2 Whittlesea C a Hodson K. *Clinical Pharmacy and Therapeutics*. 6ed argraffiad. Elsevier 2019.

Blaenoriaethau GIG Cymru

Mae cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, [Cymru Iachach](#), yn disgrifio sut y bydd mwy o wasanaethau yn cael eu darparu y tu allan i ysbytai, yn nes at y cartref neu yn y cartref yn y dyfodol, a sut y bydd pobl ond yn mynd i'r ysbyty i gael triniaeth na ellir ei darparu'n ddiogel mewn manau eraill.

Er mwyn helpu i wireddu ei gweledigaeth hirdymor ar gyfer gwasanaethau iechyd, yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar weithredu'r [ddyletswydd ansawdd](#) i sicrhau bod Gweinidogion Cymru a chyrrff y GIG yn sicrhau gwelliannau parhaus yn ansawdd y gwasanaethau a ddarparant, a chanllawiau i helpu i drawsnewid gofal brys, gofal argyfwng a gofal a gynlluniwyd trwy ei [rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng a'r rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru](#). Ochr yn ochr â'r cynlluniau trawsnewidiol hyn, mae'r cyfleoedd sy'n deillio o ddefnyddio system presgripsiynu electronig ym mhob ysbyty yng Nghymru, a'r diwygiadau i hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr, yn golygu y bydd pawb sy'n cofrestru o 2026 ymlaen yn bresgripsiynwyr.



Yr angen am adolygiad: Rôl glinigol gweithwyr proffesiynol fferylliaeth mewn ysbytai yn y dyfodol

Mae [Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach](#) yn disgrifio'r egwyddorion a'r nodau proffesiynol hirdymor ar gyfer y proffesiwn fferylliaeth yng Nghymru ac mae'n cynnwys nod allweddol i sicrhau bod pwyslais timau fferylliaeth ysbytai yn newid erbyn 2030 i ymateb i newidiadau yn narpariaeth gofal ac i drawsnewid mynediad at feddyginiaethau.

Yn y dyfodol, dim ond cleifion gydag angen gofal brys, gofal dwys neu ofal arbenigol iawn a fydd angen mynediad at fferyllwyr ymarfer uwch a'u timau mewn ysbyty, ac mae angen galluogi mwy o fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol i gyfrannu at ofal cleifion yn y gymuned. Ni fydd angen mewnbwn gan fferyllfa ar bob claf sy'n cael ei dderbyn i'r ysbyty, ac mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd arhosiad byr yn yr ysbyty yn amser priodol i ymyrryd â meddyginiaethau presgripsiwn unigolyn. Yn yr un modd, yn y dyfodol, oni bai bod y gweithlu fferylliaeth ysbytai presennol yn cynyddu'n sylweddol, neu y dadfuddsoddir mewn rhai gweithgareddau traddodiadol, ni fydd yn bosibl, nac yn angenrheidiol, i fferylllydd weld pob claf. Yn y cyd-destun hwn, mae angen newid sut mae gwasanaethau fferylliaeth glinigol yn cael eu trefnu mewn ysbytai er mwyn bodloni disgwyliadau newidiol y GIG.

2. Yr Adolygiad

Yn 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru y corff arweinyddiaeth fferyllfeydd proffesiynol, y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, i gynnal adolygiad annibynnol o ddarpariaeth gwasanaethau fferylliaeth glinigol mewn ysbytai yng Nghymru. Pwrpas yr adolygiad oedd ystyried darpariaeth bresennol gwasanaethau fferylliaeth glinigol mewn ysbytai, ac i ba raddau maent yn cyd-fynd â blaenoriaethau ac anghenion newidiol GIG Cymru.

Cwblhawyd y gwaith maes ar gyfer yr adolygiad yn gynnar yn 2023 ac mae'n cael ei ddisgrifio'n fanwl ynghyd â'i ganfyddiadau mewn [adroddiad](#) a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ym mis Medi 2023.



3. Canfyddiadau'r adolygiad


Mae ychydig o dan 2,000 o bobl yn gweithio mewn timau fferylliaeth ysbytai ledled Cymru, ac mae 44% (866) ohonynt yn fferyllwyr (748) neu'n fferyllwyr sylfaen (118),³ mae 38% (748) yn dechnegwyr fferyllfa (669) neu'n dechnegwyr fferyllfa cyn-cofrestru (79),⁴ ac mae 18% (350) yn gynorthwyyr fferyllfa nad ydynt yn gofrestredig. Yn wahanol i rannau eraill o'r gweithlu, mae nifer y fferyllwyr cyfwerth ag amser llawn wedi gostwng yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod timau fferylliaeth yn wynebu mwy o bwysau sylweddol. O ganlyniad, er gwaethaf y dystiolaeth sy'n dangos pwysigrwydd eu gwaith, nid ydynt yn gallu ehangu eu cyfraniad at feysydd newydd ac maent mewn perygl o dynnu allan o feysydd eraill er mwyn gweithio mewn rolau fferylliaeth traddodiadol sy'n seiliedig ar dasgau ac yn ychwanegu llai o werth. Amlygodd cyfranogwyr yr adolygiad yr angen i fynd i'r afael â'r pwysau cynyddol ar weithwyr proffesiynol fferylliaeth mewn rolau anghlinigol y tu allan i gwmpas yr adolygiad, er mwyn cyflawni ei amcanion.

Roedd y rhain yn cynnwys cyflenwi meddyginiaethau a logisteg, gwasanaethau technegol, a gwasanaethau gwybodaeth am feddyginiaethau.

Er gwaethaf yr heriau, canfu'r adolygiad gyfleoedd clir i ailgynllunio gwasanaethau er budd cleifion, y gweithlu fferylliaeth, a'r GIG yn ehangach. Hefyd, nodwyd bod llawer o enghreifftiau da ledled Cymru o weithwyr proffesiynol fferylliaeth yn gwneud y math o gyfraniad sydd ei angen ar y GIG. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys gweithwyr proffesiynol fferylliaeth yn cefnogi gofal brys a gofal argyfwng, gofal a gynlluniwyd, a gwella ansawdd. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu'n anghyson nid yn unig rhwng byrddau iechyd ond yn aml rhwng ysbytai o fewn yr un bwrdd iechyd.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, mae'r adolygiad yn gwneud 36 o argymhellion mewn meysydd amrywiol yn ymwneud â gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, integreiddio, fferyllwyr yn presgripsiynu, digidol a thechnoleg, datblygu'r gweithlu, arweinyddiaeth, ac ansawdd a llywodraethu (Atodiad A).



- 3 Mae fferyllwyr sylfaen yn hyfforddeion sy'n ymgymryd â'r cyfnod 52 wythnos gofynnol o hyfforddiant sylfaen ac yn llwyddo yn yr arholiad cofrestru er mwyn cofrestru fel fferylllydd gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol. (GPhC)
- 4 Mae technegwyr fferyllol cyn-cofrestru yn hyfforddeion sy'n ymgymryd â rhaglen hyfforddiant galwedigaethol dwy flynedd er mwyn ennill y profiad a'r cymhwyster/cymwysterau gofynnol sydd eu hangen i gofrestru fel technegydd fferyllfa gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol

4. Ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad

Mae miloedd o feddyginiaethau yn cael eu presgripsiynu, eu dosbarthu, a'u cyflenwi bob dydd mewn ysbytai ledled Cymru. Mae pobl nid yn unig yn cymryd mwy o feddyginiaethau nag o'r blaen, ond yn aml mae'r broses o baratoi meddyginiaethau, a'u gweithgarwch ffarmacolegol, yn fwy cymhleth. Hefyd, mae gan ddatblygiadau technolegol fel ehangu mynediad at brofion ffarmacogenomeg y potensial i drawsnewid yn sylfaenol sut rydym yn gwneud penderfyniadau am driniaeth unigolion. Felly, mae darparu gwasanaethau fferylliaeth glinigol o ansawdd uchel sydd ar gael yn hwylus yn hanfodol i wireddu potensial datblygiadau ym maes meddygaeth.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn bwrw ymlaen â'i chynlluniau i drawsnewid sut mae rhai meddyginiaethau'n cael eu paratoi a'u defnyddio, ac i ddigideiddio'n llawn sut mae meddyginiaethau'n cael eu presgripsiynu a'u cyflenwi mewn ysbytai trwy'r rhaglen [Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau](#) (TrAMs), ad-drefnu gwasanaethau gwybodaeth am feddyginiaethau lleol i greu un [Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru](#) (WMAS) a [Phortffolio Trawsnewid Gweinyddu Meddyginiaethau'n Ddigidol](#) (DMTP) dan arweiniad Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, timau gwybodaeth am feddyginiaeth ym mhob bwrdd iechyd, ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) yn y drefn honno. Mae canfyddiadau adolygiad annibynnol y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yn datblygu'r gwaith hwn ac yn helpu i ddisgrifio sut mae modd cefnogi fferyllwyr ysbytai a thechnegwyr fferyllol

i ddefnyddio eu sgiliau a'u harbenigedd unigryw yn well er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r GIG, trwy gydol eu gyrfaoedd, ac mewn lleoliadau newydd, gan adlewyrchu newidiadau i sut mae gofal wedi'i ddarparu yn draddodiadol.

Mae canfyddiadau'r adolygiad yn atgyfnerthu'r ffaith fod gwasanaethau fferylliaeth glinigol yn elfen hanfodol o ofal ysbyty o ansawdd uchel, gan helpu i wella canlyniadau iechyd ac atal niwed y gellir ei osgoi. Fodd bynnag, wrth i natur gofal mewn ysbytai newid, mae'n rhaid newid darpariaeth gwasanaethau fferylliaeth glinigol hefyd. Rhaid sefydlu llwybrau gyrfa mwy eglur ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, integreiddio fferyllwyr yn well mewn timau aml-ddisgyblaethol, diffinio rolau fferylllydd-bresgripsiynydd ym mhob cam o'i yrfa glinigol, sicrhau mynediad cyson at wybodaeth ac arbenigedd gweithwyr proffesiynol fferylliaeth pryd bynnag y bydd eu hangen, gan gynnwys yn y meysydd clinigol hynny lle mae tystiolaeth yn dangos manteision sylweddol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r GIG, a sicrhau arweinyddiaeth gryfach a llinellau atebolrwydd.

Bydd y broses o roi argymhellion yr adolygiad ar waith yn arwain at fanteision i dimau fferylliaeth, gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill, y GIG, ac yn bwysicaf oll i gleifion sy'n derbyn gofal ysbyty, naill ai mewn ysbyty neu yn y gymuned. Er mwyn helpu i roi'r argymhellion ar waith, mae rhestr gychwynnol o 60 o gamau gweithredu strategol wedi'i datblygu (Atodiad B) o dan bedair thema ac 16 is-thema (Ffigur un).

Ffigur un:

Themâu sy'n disgrifio'r camau blaenoriaeth ar gyfer gweithredu argymhellion yr adolygiad

1

Galluogi gweithwyr fferyllfeydd proffesiynol i ymarfer yn y meysydd hynny lle maent yn ychwanegu'r gwerth mwyaf ynddynt

Lleihau'r amser a dreulir gan weithwyr proffesiynol fferylliaeth ar weithgareddau anghlinigol

Blaenoriaethu darpariaeth gwasanaeth fferylliaeth glinigol i ddiwallu anghenion y GIG yn well

Cwmpas gwasanaethau fferylliaeth glinigol a'r berthynas â thimau amlddisgyblaethol

Gwireddu potensial presgripsiynu gan fferyllwyr

Gwella cymorth fferyllfeydd er mwyn cyflawni blaenoriaethau a nodwyd gan y GIG

Rôl fferyllfeydd mewn optimeiddio llif cleifion

2

Datblygu timau fferylliaeth ysbytai i ddarparu gofal clinigol rhagorol

Gwella'r broses o gynllunio'r gweithlu fferylliaeth

Cyflwyno fframweithiau gyfa fferylliaeth a chynlluniau swyddi i helpu i gadw'r gweithlu a darparu gofal fferyllol

Cefnogi datblygiad proffesiynol yn ystod pob cam o yrfa unigolyn

Deall a gwella ansawdd gofal fferyllol yn barhaus

3

Cryfhau ansawdd, arweinyddiaeth fferyllfeydd, a llywodraethu ar bob lefel

Gwella craffu sefydliadol ar ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau fferylliaeth

Arweinyddiaeth y system fferylliaeth

Rheoli talent a datblygu arweinwyr y dyfodol ym maes fferylliaeth

Arweinyddiaeth glinigol

4

Gwireddu potensial datblygiadau digidol, awtomeiddio a datblygiadau technolegol eraill er mwyn trawsnewid sut mae gofal fferyllol yn cael ei ddarparu

Defnyddio data a thechnoleg yn well i flaenoriaethu gofal fferyllol

Gwireddu manteision defnydd ehangach o waith arloesol i lywio penderfyniadau therapiwtig

Galluogi gweithwyr proffesiynol fferylliaeth i ymarfer yn y meysydd hynny y maent yn ychwanegu'r gwerth mwyaf ynddynt

(Argymhellion 1-12, 16 a 23 o'r Adolygiad)

Mae enghreifftiau da ledled Cymru o dimau fferylliaeth yn cael eu hintegreiddio mewn timau amlddisgyblaethol ehangach, ond mae anghysondeb yn yr ymarfer rhwng byrddau iechyd, ysbytai ac arbenigeddau clinigol. Rhaid gwella'r broses o integreiddio er mwyn gwella mynediad at arbenigedd fferylliaeth ar gyfer y gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill yn y timau hynny lle bynnag a phryd bynnag y bydd ei angen. Hefyd, bydd integreiddio yn sicrhau bod anghenion meddyginiaeth cleifion yn cael eu diwallu cyn derbyniadau a gynlluniwyd, yn gynnar yn achos gofal heb ei gynllunio, a chyn rhyddhau claf, gan gael gwared ar rwystrau i lif cleifion mewn ysbytai. Ym meysydd gofal brys a gofal argyfwng, bydd defnyddio fferyllwyr-bresgripsiynwyr yn rhyddhau clinigwyr i ddarparu gofal a gwella ystod o ddangosyddion ansawdd.

Mae galluogi fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol i flaenoriaethu gweithgareddau clinigol yn hanfodol i sicrhau integreiddio a darparu gofal fferyllol rhagorol yn gyson ledled y sefydliadau. I wneud hyn, bydd angen i fyrddau iechyd adolygu sut maent yn gweithio ar hyn o bryd, ystyried ym mha feysydd y mae defnyddio fferyllwyr a sgiliau technegwyr fferyllol yn arwain at y fantais fwyaf, a'r arbedion posibl y gellid eu sicrhau trwy brosesau digideiddio ac awtomeiddio. I wneud hyn, bydd angen i sefydliadau sicrhau eu bod yn

manteisio'n llawn ar y cymysgedd sgiliau rhwng aelodau traddodiadol o'r tîm fferyllol (fferyllwyr, technegwyr fferyllol a staff cymorth fferylliaeth) er mwyn manteisio ar y cyfleoedd a geir wrth i fferyllwyr ragnodi, ac amrywio timau fferylliaeth er mwyn datblygu sgiliau newydd ymysg y gweithlu presennol a chynnwys gweithwyr proffesiynol heb fod yn rhai fferylliaeth yn eu timau.

Datblygu timau fferylliaeth ysbytai i ddarparu gofal clinigol rhagorol

(Argymhellion 15 a 17-22 o'r Adolygiad)

Mae gan fferyllwyr sy'n gweithio yn ysbytai'r GIG brofiad ac arbenigedd unigryw o ganlyniad i gynorthwyo ac ymarfer ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill, gan wneud penderfyniadau therapiwtig, presgripsiynu a chyflenwi meddyginiaethau, ac ystyried anghenion cleifion unigol. Nhw yw'r arbenigwyr ym mhob agwedd ar ddefnydd meddyginiaethau mewn ysbytai. Mae llawer o fferyllwyr ysbytai yng Nghymru eisoes wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol i allu presgripsiynu meddyginiaethau yn eu harbenigeddau clinigol, ac o 2026 ymlaen bydd pob cofrestrydd newydd yn bresgripsiynydd. Mae'n bwysig sicrhau bod cynlluniau ar waith i ddefnyddio sgiliau fferyllwyr sy'n presgripsiynu ym mhob cam o'u gyrfa er mwyn i'r GIG wireddu manteision fferyllwyr-bresgripsiynwyr ac er mwyn recriwtio a chadw'r gweithlu fferylliaeth. Erbyn hyn, rhaid paratoi ar frys ar gyfer y newidiadau sy'n deillio o fersiwn ddiwygiedig y [Safonau Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol i Fferyllwyr](#) (IETP) gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol.

Ochr yn ochr â'r newidiadau i'r ITEP, bydd angen cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol ym mhob cam o'u gyrfa er mwyn manteisio'n llawn ar eu cyfraniad at ofal. Er mwyn datblygu'r gwaith sydd wedi'i wneud gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i ddatblygu rhaglenni hyfforddiant sylfaen ac ôl-gofrestru newydd, bydd angen fframwaith gyrfa ffurfiol ar gyfer ymarfer fferylliaeth uwch ac ar lefel ymgynghorol. Bydd hyn yn cynnwys cynorthwyo fferyllwyr i oruchwyllo a chymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant, a gwaith ymchwil, ar lefel sy'n gymesur â'u cyfnod gyrfa.

Wrth i rolau clinigol technegwyr fferyllol ehangu i gynnwys rolau newydd a arferai gael eu cyflawni gan fferyllwyr, bydd angen fframwaith gyrfa tebyg sy'n seiliedig ar gwricwla ym mhob un o gyfnodau gyrfa technegwyr fferyllol hefyd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio gyda llywodraethau eraill y DU i sicrhau newidiadau deddfwriaethol a fydd yn cynorthwyo rolau uwch i dechnegwyr fferyllol, a fydd, o'u deddfu, yn gwneud cyfraniad pellach at y cyfleoedd a nodwyd yn yr adolygiad.

Cryfhau ansawdd, arweinyddiaeth fferylliaeth, a llywodraethu ar bob lefel

(Argymhellion 13, 14 a 24-31 o'r Adolygiad)

Er mwyn cefnogi ymarfer fferylliaeth glinigol yn awr ac yn y dyfodol, yn enwedig rôl presgripsiynwyr, bydd angen cryfhau'r trefniadau llywodraethu. Fodd bynnag, rhaid i newidiadau alluogi gweithwyr proffesiynol fferylliaeth i ddatblygu fel arweinwyr ym mhob cam o'u gyrfa a'u hannog i weithio'n annibynnol, gan flaenoriaethu mwy o'u hamser i'r tasgau sy'n ychwanegu'r gwerth mwyaf.

Rhaid i'r broses hon gael ei hategu gan linellau atebolrwydd rheolaethol, proffesiynol a chlinigol mwy clir a phriodol mewn timau fferylliaeth ac mewn sefydliadau.

Mae angen gwella'r trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth drwy gyflwyno fframweithiau gyrfa er mwyn datblygu arweinwyr clinigol cenedlaethau'r dyfodol ym maes ymarfer lefel uwch ac ymgynghorol ac arweinwyr system, hyd at ac yn cynnwys Cyfarwyddwyr Fferylliaeth.

Gwireddu potensial datblygiadau digidol, awtomeiddio a datblygiadau technolegol eraill er mwyn trawsnewid sut mae gofal fferyllol yn cael ei ddarparu

(Argymhellion 32-36 o'r adolygiad)

Mae datblygiadau technolegol yn trawsnewid sut mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu. Mae fferyllfeydd ysbytai yng Nghymru wedi bod yn elwa ar effaith drawsnewidiol awtomeiddio ar rolau fferylliaeth traddodiadol megis cyflenwi ers dros 20 mlynedd, ac yn y tair blynedd nesaf bydd y defnydd o systemau presgripsiynu electronig a chyflenwi meddyginiaethau a'r cofnod meddyginiaethau a rennir ym mhob ysbyty yn trawsnewid sut mae fferylliaeth glinigol yn cael ei darparu mewn ffordd debyg. Hefyd, mae datblygiadau therapiwtig gan gynnwys y defnydd ehangach o brofion ffarmacogenomeg i lywio'r broses o ddewis triniaeth, a'r nifer cynyddol o gynhyrchion meddyginiaethol therapi uwch cymeradwy sydd ar gael yn y GIG, yn newid sut mae rhai gweithwyr proffesiynol fferylliaeth yn gweithio, a sut y bydd llawer mwy ohonynt yn gweithio yn y dyfodol. Er mwyn gwireddu potensial datblygiadau

digidol, awtomeiddio a datblygiadau technolegol eraill, bydd angen i'r GIG gyflwyno technolegau newydd a sicrhau bod dulliau gweithio sefydliadau ac unigolion yn newid ac yn addasu er mwyn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd hyn. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod gan fwy o weithwyr proffesiynol fferylliaeth y sgiliau cywir i arwain y gwaith o ddefnyddio datblygiadau digidol a therapiwtig arloesol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae natur gynhwysfawr yr adolygiad yn darparu glasbrint ar gyfer datblygu fferylliaeth glinigol mewn ysbytai yn yr hirdymor. Er bod modd cyflwyno rhai argymhellion yn y tymor byr, bydd angen mwy o amser i gyflwyno eraill. Yn y pen draw, byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a fydd yn gyfrifol am gyflwyno'r

rhan fwyaf o'r argymhellion a nodir yn yr adolygiad, ond bydd angen cymorth gan bartneriaid gan gynnwys AaGIC a DHCW. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gweithrediaeth y GIG, byrddau iechyd a sefydliadau eraill y GIG i sicrhau bod y 60 o gamau strategol ar draws y system yn cael eu gweithredu ochr yn ochr â'r argymhellion sy'n cael eu gwneud yn yr adolygiad ar gyfer byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn benodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pa drefniadau sydd eu hangen i oruchwylio a sbarduno newid, a bydd yn parhau i weithio'n agos gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol fel rheoleiddiwr, a'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a Chymdeithas Technegwyr Fferyllol y DU fel y cyrff arweinyddiaeth proffesiynol ar gyfer gweithwyr proffesiynol fferylliaeth, i fanteisio ar gyfraniad fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol er mwyn gwella ansawdd gofal i bobl yng Nghymru.



Atodiad A: Argymhellion a wnaed yn Adolygiad Annibynnol y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

	Argymhellion
1	Rhaid i dimau fferylliaeth gael eu cynnwys fel mater o drefn o fewn pob tîm amlddisgyblaethol.
2	Ar gyfer cleifion sy'n derbyn gofal ysbyty a gynlluniwyd, rhaid i dimau fferylliaeth wneud y gorau o'u meddyginiaeth mewn gwasanaethau cyn-derbyn neu ragsefydlu.
3	Rhaid i dimau fferylliaeth, gan gynnwys ymarferwyr adrannau brys uwch, fod ar gael ym mhob adran frys a'u hintegreiddio i'r broses asesu cleifion, er mwyn sicrhau penderfyniadau a rheolaeth dda ar feddyginiaethau ar y cyfle cyntaf.
4	Wrth gael eu derbyn, rhaid i gleifion gael eu brysbennu i adnabod a blaenoriaethu eu hanghenion fferyllol. Rhaid i hyn gael ei ddogfennu fel rhan o'u cynllun triniaeth cyffredinol.
5	Rhaid i gleifion gael eu grymuso i gymryd cyfrifoldeb dros eu meddyginiaethau a, lle bynnag y bo modd, rhaid iddynt gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am eu meddyginiaethau a'u gofal yn ystod arhosiad cleifion mewnol. Rhaid i dimau fferylliaeth chwarae rhan weithredol wrth atal datgyflyru gweithredol cleifion.
6	Rhaid i dimau fferylliaeth fod yn rhan o gynllunio ar gyfer rhyddhau, gan ddechrau ar adeg derbyn claf, a'r sefyllfa ddiodyn yw atgyfeirio cleifion am gymorth/gofal meddyginiaethau ar ôl eu rhyddhau oni bai ei bod yn amlwg nad oes ei angen.
7	Rhaid sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau arbenigol fferyllwyr ymarfer uwch ac ymgynghorol ar gael er budd cleifion ac ymarferwyr mewn lleoliadau cymunedol.
8	Mae angen adolygiad brys o'r gweithlu a'r systemau sy'n gysylltiedig â chyflenwi a logisteg meddyginiaethau mewn ysbytai er mwyn rhyddhau capasiti gweithwyr proffesiynol fferylliaeth i gyflawni gwasanaethau yn canolbwyntio ar y claf.

	Argymhellion
9	Dylid integreiddio adnoddau fferyllol penodol i Dimau Amlddisgyblaethol mewn meysydd blaenoriaeth glinigol gydag uchelgais i wreiddio gweithwyr proffesiynol fferylliaeth ym mhob tîm amlddisgyblaethol dros amser.
10	Rhaid i batrymau gwaith timau fferylliaeth fod yn fwy cydnaws ag anghenion cleifion a'r tîm amlddisgyblaethol y maent yn eu cefnogi.
11	Rhaid i ddatblygiadau gwasanaeth newydd neu ailgynllunio gwasanaethau mewn ysbytai ystyried gofynion y gwasanaeth fferylliaeth glinigol a thechnegol o'r cychwyn cyntaf, a gwerthuso ac adolygu'r gofynion hynny yn rheolaidd.
12	Dylai fferyllwyr sy'n gweithio o fewn tîm amlddisgyblaethol fod yn bresgripsiynwyr a bod yn weithredol wrth bresgripsiynu i ddiwallu anghenion eu timau amlddisgyblaethol a'r cleifion y maent yn gofalu amdanynt.
13	Rhaid i fferyllwyr groesawu a hyrwyddo eu rôl fel presgripsiynwyr, a derbyn yr ymreolaeth, y cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cysylltiedig.
14	Mae fframweithiau llywodraethu a strwythurau sefydliadol priodol ar waith i fferyllwyr-bresgripsiynwyr (a phresgripsiynwyr anfeddygol eraill) i gynnal ac ehangu eu cwrpas ymarfer.
15	Rhaid i leoliadau clinigol fod ar gael i fyfyrwyr fferylliaeth israddedig mewn niferoedd digonol ac ar y lefel briodol i baratoi myfyrwyr ar gyfer ymarfer fel fferyllwyr-bresgripsiynwyr. Dylai profiadau timau amlddisgyblaethol fod yn greiddiol i'r ymagwedd hon.
16	Rhaid i gymysgedd sgiliau timau fferylliaeth adlewyrchu'r Egwyddor Gofal Iechyd Darbodus o "wneud yr hyn y gallwch chi ei wneud yn unig" i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y gall pob rôl eu cyflawni.
17	Rhaid i fferyllwyr ddangos eu cymhwysedd, trwy gymhwyso, er mwyn datblygu eu gyrfaoedd gan gynnwys hyd at rolau uwch ac ymgynghorol, ar draws pob lleoliad.
18	Rhaid i rolau technegydd fferyllol fod â strwythur datblygu ôl-gofrestru sy'n cefnogi eu dilyniant ac yn diffinio ac yn sicrhau eu lefelau ymarfer sy'n datblygu.
19	Rhaid gwreiddio diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus, gwella ansawdd, gwerthuso gwasanaethau ac ymchwil ymhellach yn y tîm fferylliaeth. Rhaid i ddarparwyr addysg gynllunio hyfforddiant hyblyg o amgylch anghenion y gweithlu.

	Argymhellion
20	Rhaid integreiddio ymhellach addysg a hyfforddiant yr holl dimau fferylliaeth, gan gynnwys lleoliadau israddedig, mewn hyfforddiant gofal iechyd ehangach i ganiatáu hyfforddiant amlbroffesiynol a gwreiddio fferylliaeth fel rhan hanfodol o'r tîm amlddisgyblaethol.
21	Rhaid i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol cofrestredig gael cynllun gwaith sy'n gwreiddio pedair colofn ymarfer proffesiynol: ymarfer clinigol, arweinyddiaeth a rheolaeth, addysg ac ymchwil mewn ffordd sy'n briodol i bob cam o'u gyrfa.
22	Dylid datblygu cynlluniau gweithlu fferylliaeth ar lefelau lleol a chenedlaethol, eu datblygu ar y cyd â'r tîm amlddisgyblaethol a'u halinio â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r GIG.
23	Rhaid i'r gwasanaeth fferylliaeth a rheoli meddygaeth arallgyfeirio eu strwythurau i gynnwys mwy o arbenigedd nad yw'n fferylliaeth, er enghraifft, gwybodeg glinigol, rheolwyr prosiect a dadansoddwyr data.
24	Rhaid i fferylliaeth gofleidio pedair colofn ymarfer uwch yn gyson h.y. ymarfer clinigol, arweinyddiaeth a rheolaeth, addysg ac ymchwil i yrru modelau rhagoriaeth.
25	Rhaid datblygu a chefnogi gwybodaeth a sgiliau arwain a rheoli ar gyfer yr holl weithwyr proffesiynol fferylliaeth trwy gydol eu gyrfa.
26	Rhaid datblygu strategaeth yng Nghymru ar gyfer rolau fferyllwyr Uwch ac Ymgynghorol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Rhaid i reolaeth dalent a chynllunio olyniaeth fod ar waith ar gyfer rolau ymarfer uwch ac ymgynghorol.
27	Rhaid i fferylliaeth gael ei chynrychioli'n well o fewn uwch dimau arweinyddiaeth y bwrdd iechyd a'r ymddiriedolaeth, a dylai gwella ansawdd defnydd o feddyginiaethau ymddangos yn fwy amlwg mewn trafodaethau ar lefel y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd.
28	Rhaid i arweinyddiaeth strategol ar gyfer fferylliaeth yng Nghymru fod yn gydweithredol ar draws fferylliaeth a'r system gofal iechyd ehangach. Rhaid iddo hefyd fod yn fwy cydlynol ac uchelgeisiol ac edrych allan i raddau mwy.
29	Rhaid i fframwaith sicrhau a llywodraethu proffesiynol fferylliaeth fod ar waith ym mhob sefydliad GIG Cymru sy'n cyflogi gweithwyr proffesiynol fferylliaeth.
30	Rhaid i fyrddau gael systemau i roi sicrwydd bod eu gwasanaethau fferyllfa ysbyty yn gweithredu i safon uchel sy'n gyson ag arfer gorau, yn ogystal â dal gwasanaethau fferyllol i gyfrif.

Argymhellion	
31	Rhaid i systemau ansawdd a llywodraethu rheoli meddyginiaethau a gwneud y defnydd gorau o feddyginiaethau gael eu sefydlu a'u gwreiddio'n well o fewn strwythurau a phrosesau llywodraethu byrddau iechyd/ymddiriedolaethau.
32	Rhaid i wasanaethau fferyllol ysbytai gefnogi arloesedd ac arwain y gwaith o weithredu technolegau therapiwtig newydd sy'n ymwneud â'u harbenigedd; er enghraifft, mewn ffarmacogenomeg.
33	Rhaid cael buddsoddiad digonol mewn caledwedd, meddalwedd a'r gweithlu gwybodeg fferyllol i wireddu manteision datblygiadau digidol yn llawn. Rhaid i systemau fod yn hygyrch, yn gyfeillgar i'r defnyddiwr, yn rhyngweithredol a rhaid gwerthuso eu buddion.
34	Rhaid i weithwyr proffesiynol fferylliaeth ddatblygu a chynnal cymhwysedd yn y datblygiadau technolegol a fydd yn trawsnewid eu rolau dros y deng mlynedd nesaf.
35	Rhaid i fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gael gweithwyr proffesiynol fferylliaeth gwybodeg glinigol i arwain a chefnogi datblygiadau digidol diogel i wella gofal cleifion, effeithlonrwydd gweithlu ac egwyddorion gofal iechyd darbodus. Bydd y sefydliadau hyn yn gweithio'n agos gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i weithredu strategaeth genedlaethol.
36	Rhaid i systemau rheoli meddyginiaethau electronig sicrhau dull cyson i Gymru gyfan ar draws pob lleoliad gyda rhyngweithrededd yn hanfodol i unrhyw gynlluniau ar gyfer gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Atodiad B: Cynllun Gweithredu Strategol

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
1. Galluogi gweithwyr proffesiynol fferylliaeth i ymarfer yn y meysydd hynny lle maent yn ychwanegu'r gwerth mwyaf ynddynt		
1.1 Lleihau'r amser a dreulir gan gweithwyr proffesiynol fferyllfeydd ar weithgareddau anghlinigol		
Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad o gyfleoedd i wella effeithlonrwydd trefniadau cyflenwi a logisteg meddyginiaethau ysbytai a rhyddhau amser fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol ar gyfer gofal clinigol	Ar unwaith	<ul style="list-style-type: none"> • Llywodraeth Cymru • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre barhau i flaenoriaethu a chyfrannu at y gwaith sydd eisoes wedi dechrau i ad-drefnu gwasanaethau technegol fferylliaeth a gwasanaethau gwybodaeth am feddyginiaethau yn genedlaethol drwy'r rhaglen TrAMs a phrosiect WMAS	Ar unwaith	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru • Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
1.2 Blaenoriaethu darpariaeth gwasanaeth fferylliaeth glinigol i ddiwallu anghenion y GIG yn well		
<p>Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gwblhau archwiliad i fapio sut mae adnoddau fferyllfeydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer gweithgareddau clinigol ledled y sefydliad ac i nodi natur a lefel y gweithgarwch fferylliaeth glinigol mewn ysbytai yn ôl arbenigedd ac is-adran/cyfarwyddiaeth(au) ar gyfer cleifion mewnol, cleifion allanol ac unrhyw wasanaethau eraill yn eu sefydliad</p>	Ar unwaith	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG • AaGIC
<p>Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre nodi pa arbenigeddau neu feysydd clinigol nad ydynt yn derbyn gwasanaeth fferylliaeth glinigol ar hyn o bryd, neu sydd ddim ond yn derbyn gwasanaeth cyfyngedig; penderfynu pa feysydd, os o gwbl, sydd angen eu blaenoriaethu ar gyfer mewnbwn fferylliaeth; a datblygu cynlluniau i sicrhau bod modd defnyddio gweithwyr proffesiynol fferylliaeth yn fwy priodol yn yr arbenigeddau/meysydd hynny. Gallai hyn gynnwys blaenoriaethu o'r newydd neu ddadfuddsoddi ac adleoli, o weithgareddau blaenoriaeth is a gwerth is</p>	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG
<p>Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sicrhau bod pob fferylllydd ymarfer uwch ac ymgynghorol yn cael ei ddynodi i gefnogi is-adrannau/cyfarwyddiaethau clinigol ar sail canlyniadau'r ymarferiad mapio adnoddau</p>	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
Dylai byrddau iechyd sicrhau bod systemau brysbennu a blaenoriaethu cleifion ar waith ar gyfer darparu gofal fferyllol wrth dderbyn cleifion. Dylai'r broses flaenoriaethu fod yn seiliedig ar ddefnyddio adnoddau blaenoriaethu clinigol sydd wedi'u dilysu ac yn cael eu defnyddio yn ysbytai'r GIG yn y DU	Ar unwaith	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG
1.3 Cwmpas gwasanaethau fferylliaeth glinigol a'r berthynas â thimau amlddisgyblaethol		
<p>Os yw gwasanaeth fferylliaeth glinigol yn cael ei ddarparu i is-adran/ is adrannau clinigol, cyfarwyddiaeth/cyfarwyddiaethau clinigol neu faes clinigol, dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sefydlu:</p> <p>i) cytundeb ffurfiol sy'n diffinio natur a lefel y gwasanaeth a rôl/rolau penodol unrhyw fferyllwyr ymarfer uwch ac ymgynghorol sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaeth, fel y'i nodir yn eu cynllun/cynlluniau swydd</p> <p>ii) dylai'r cytundeb nodi'n glir y trefniadau ar gyfer atebolrwydd rheolaethol, clinigol a phroffesiynol</p>	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre benderfynu ar y proffil galw am wasanaethau fferylliaeth ym mhob maes clinigol a sicrhau bod patrymau gwaith timau fferylliaeth yn cyd-fynd ag anghenion cleifion a gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys adegau pan nad yw gwasanaethau fferyllfeydd yn cael eu darparu ar hyn o bryd, a dylai sicrhau darpariaeth yn ôl yr angen, saith diwrnod yr wythnos	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sicrhau bod y gofynion ar gyfer gwasanaethau fferylliaeth glinigol ac anghlinigol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu pob gwasanaeth newydd ac wrth ailgynllunio gwasanaethau clinigol mewn unrhyw ffordd	Ar unwaith	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG
1.4 Gwireddu potensial presgripsiynu gan fferyllwyr		
Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sicrhau bod pob fferylllydd ymarfer uwch ac ymgynghorol mewn rolau clinigol yn gwneud bresgripsiynwyr neu'n cael eu hyfforddi i fod yn bresgripsiynwyr	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC
Dylai Grŵp Cymheiriaid y Prif Fferyllwyr sefydlu gweithgor oes fer amlddisgyblaethol i gytuno ar sut y dylid gweithredu argymhellion 12 a 13 o adolygiad y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol parthed presgripsiynu gan fferyllwyr	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Prif fferyllwyr • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) • Gweithrediaeth y GIG

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
1.5 Gwella cymorth fferyllfeydd er mwyn cyflawni blaenoriaethau a nodwyd gan y GIG		
Dylai byrddau iechyd sicrhau bod pob lleoliad Gofal Brys a Gofal Argyfwng yn derbyn gwasanaeth fferylliaeth glinigol a bod fferyllwyr-bresgripsiynwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn cael eu cynnwys mewn timau amlddisgyblaethol ym mhob Adran Achosion Brys ac uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod fel blaenoriaeth	Ar unwaith (cyn gaeaf 2023)	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG
Bydd AaGIC yn blaenoriaethu cyfleoedd ariannu i ddatblygu sgiliau fferyllwyr i weithio mewn lleoliadau Gofal Brys a Gofal Argyfwng. Bydd y cyllid yn cynnwys datblygu sgiliau ym meysydd presgripsiynu annibynnol, archwilio clinigol ac asesu iechyd clinigol, diagnosteg a brysbennu	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC
Dylai byrddau iechyd adolygu, a lle bo angen, newid patrymau gwaith ac oriau contractiol timau fferylliaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r galw am wasanaeth mewn Adrannau Achosion Brys ac unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG
Dylai byrddau iechyd sicrhau bod gwasanaethau gofal a gynlluniwyd yn derbyn gwasanaeth fferylliaeth glinigol a bod fferyllwyr-bresgripsiynwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn cael eu cynnwys mewn timau amlddisgyblaethol, gan roi blaenoriaeth i rolau fferyllwyr-bresgripsiynwyr mewn gwasanaethau cyn-derbyn a rhagsefydlu	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
1.6 Rôl fferyllfeydd wrth optimeiddio llif cleifion		
Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gyflwyno'r holl gamau sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau Gwneud y gorau o wasanaethau fferylliaeth wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty i wella llif cleifion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2022	Ar unwaith	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG
Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sefydlu a chyflwyno eu polisiau yn ymwneud â chleifion yn hunan-weinyddu meddyginiaethau fel bod cleifion yn gallu rheoli eu meddyginiaethau eu hunain tra byddant yn yr ysbyty	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG
Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu negeseuon wedi'u diweddarau yn annog cleifion i ddod â'u meddyginiaethau rheolaidd i'r ysbyty, gyda chymorth gweithgareddau cyfathrebu cenedlaethol	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG
Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sicrhau, fel mater o drefn, bod timau fferylliaeth yn cofnodi fferyllfa gymunedol enwebedig pob claf yn ei gofnod ar-lein (e.e. ym Mhorth Clinigol Cymru) er mwyn hwyluso Adolygiad o Feddyginiaethau wrth Ryddhau ar ôl rhyddhau claf o ysbyty. Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu deunyddiau cyfathrebu cleifion a gofalwyr wedi'u diweddarau i gynorthwyo'r cam gweithredu hwn	Ar unwaith	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Fferyllfeydd Cymunedol • Gweithrediaeth y GIG

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
<p>Dylai timau fferylliaeth sicrhau bod yr holl gleifion sydd angen cymorth gyda'u meddyginiaethau ar ôl eu rhyddhau yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau cymunedol mwyaf priodol (e.e. adolygiad o feddyginiaethau gan feddyg teulu neu fferylllydd practis meddyg teulu, neu wasanaeth meddyginiaethau yn y gymuned/cartref)</p>	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Fferyllfeydd Cymunedol • Practisau Meddygon Teulu • Gweithrediaeth y GIG

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
2. Datblygu timau fferylliaeth ysbytai i ddarparu gofal clinigol rhagorol		
2.1 Gwella'r broses o gynllunio'r gweithlu fferylliaeth		
Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sicrhau bod cynlluniau gweithlu eu sefydliad yn ystyried manteision integreiddio gweithwyr proffesiynol fferylliaeth mewn timau aml-ddisgyblaethol	Ar unwaith	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Dylai byrddau iechyd a phrif fferyllwyr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sicrhau bod gan y sefydliad gynllun gweithlu fferylliaeth i gefnogi ac ehangu ymarfer fferyllwyr uwch ac ymgynghorol ac i nodi rolau mwy clinigol ar gyfer technegwyr fferyllol	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Prif fferyllwyr • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Dylai AaGIC a byrddau iechyd barhau i flaenoriaethu cyllid ar gyfer cyfleoedd i fferyllwyr ysbytai gael mynediad at hyfforddiant ymarfer uwch ac i dechnegwyr fferyllol gael mynediad at hyfforddiant clinigol ychwanegol a rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod hyfforddiant o'r fath yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r GIG	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC • Gweithrediaeth y GIG

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
2.2 Cyflwyno fframweithiau gyrfa fferylliaeth a chynlluniau swyddi i helpu i gadw'r gweithlu a darparu gofal fferyllol		
Bydd AaGIC yn gweithio gyda byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre i ddatblygu fframweithiau gyrfa ôl-gofrestru safonedig sy'n cyd-fynd â chwricwla ôl-gofrestru, ar gyfer yr holl fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol a gyflogir gan y GIG yng Nghymru	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC • Gweithrediaeth y GIG
Fel rhan o'r fframweithiau gyrfa, bydd sefydliadau'r GIG yn datblygu cyfundrefn enwi genedlaethol safonedig ar gyfer teitlau swyddi fferyllwyr clinigol a gyflogir gan y GIG sy'n cyd-fynd â chwricwla'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ar gyfer ymarfer ôl-gofrestru	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Cyflogwyr y GIG • AaGIC • Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol • Gweithrediaeth y GIG
Unwaith y cytunir arni, dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre fabwysiadu'r gyfundrefn enwi genedlaethol safonedig ar gyfer teitlau swyddi fferyllwyr	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
<p>Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sicrhau bod datblygiad gyrfa pob fferylllydd a thechnegydd fferyllfa a gyflogir gan y GIG yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion ddangos eu bod yn bodloni'r safon ofynnol ar gyfer ymarfer ar lefel yr ymarfer sy'n ofynnol gan y disgrifiad swydd (a'r gyfundrefn enwi safonedig ar gyfer teitlau swyddi) gan gynnwys asesiad gan gorff proffesiynol os oes un ar gael</p>	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC • Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol • Gweithrediaeth y GIG
<p>Dylid datblygu templedi cenedlaethol ar gyfer swydd-ddisgrifiadau, proffiliau swyddi Agenda ar gyfer Newid wedi'u diweddarau, a thempledi cenedlaethol ar gyfer cynlluniau swydd (sy'n cynnwys pedair colofn ymarfer uwch) ar gyfer pob fferylllydd</p>	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Cyflogwyr y GIG • Gweithrediaeth y GIG • Llywodraeth Cymru
<p>Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sicrhau bod gan bob fferylllydd a gyflogir gan y GIG gynllun swydd sy'n briodol i bob cam o yrfa fferylllydd unigol</p>	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
<p>Dylai cynlluniau swydd ar gyfer fferyllwyr ymarfer uwch ac ymgynghorol gynnwys amser i ddarparu gwasanaethau allgymorth a gwaith integredig ar draws sectorau i gynorthwyo ymarferwyr a leolir yn y gymuned a chleifion yn y gymuned</p>	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
<p>Bydd AaGIC yn gweithio gyda Chymdeithas Technegwyr Fferyllol y DU (APTUK) i ddatblygu cwricwla ôl-gofrestru cynhwysfawr ar gyfer technegwyr fferyllol a gyflogir gan y GIG yng Nghymru</p> <p>Ar ôl datblygu cwricwla o'r fath, dylid gwneud rhagor o waith i ddatblygu cyfundrefn enwi genedlaethol safonedig ar gyfer teitlau swyddi technegwyr fferyllol a gyflogir gan y GIG sy'n cyd-fynd â'r cwricwla; hefyd, dylid datblygu templed cenedlaethol ar gyfer swydd-ddisgrifiadau, diweddarau proffiliau swyddi yr Agenda ar gyfer Newid, a thempled cenedlaethol ar gyfer cynlluniau swydd ar gyfer technegwyr fferyllol. Yna, dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre fabwysiadu'r gyfundrefn enwi genedlaethol safonedig ar gyfer teitlau swyddi technegwyr fferyllol a sicrhau bod gan yr holl dechnegwyr fferyllol a gyflogir gan y GIG gynllun swydd sy'n addas ar gyfer pob cam o yrfa technegydd fferyllfa unigol</p>	<p>Tymor Canolig</p> <p>Hirdymor</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Cyflogwyr y GIG • AaGIC • APTUK • Gweithrediaeth y GIG
<h3>2.3 Cefnogi datblygiad proffesiynol yn ystod pob cam o yrfa unigolyn</h3>		
<p>Dylai AaGIC weithio gydag Ysgol Fferylliaeth Prifysgol Caerdydd ac Ysgol Fferylliaeth Prifysgol Abertawe i ddisgrifio enghreifftiau o leoliadau fferylliaeth ar gyfer israddedigion mewn timau amlddisgyblaethol ysbytai sy'n bodloni eu gofynion addysgol. Dylai hyn gynnwys cadw a chyhoeddi rhestr o weithgareddau proffesiynol ymddiriedol ar gyfer is-raddedigion fferylliaeth, gan gynnwys gweithgareddau fferylliaeth glinigol priodol mewn ysbytai</p>	<p>Ar unwaith</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC • Prifysgol Caerdydd • Prifysgol Abertawe

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
<p>Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ddatblygu cynlluniau i sicrhau bod niferoedd digonol o leoliadau fferylliaeth is-raddedig, sylfaenol ac ôl-gofrestru ar gael yn unol â'r nifer arfaethedig o hyfforddeion yng Nghymru, gan gynnwys lleoliadau gyda fferyllwyr-bresgripsiynwyr ac mewn timau amlldisgyblaethol</p>	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC • Prifysgol Caerdydd • Prifysgol Abertawe
<p>Dylai cynlluniau swyddi safonedig ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa gynnwys amser wedi'i neilltuo i gymryd rhan mewn addysg a'i goruchwyllo, gan sicrhau cymesuredd â chyfnodau gyrfa unigolion</p>	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC
<p>Dylai AaGIC gynnal adolygiad o'r cynnig datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer timau fferylliaeth ysbytai er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu eu hanghenion datblygu a'i fod yn darparu dull gweithredu hyblyg ar gyfer cyfranogwyr</p>	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC
<p>Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sicrhau mewnbyn priodol gan fferyllfeydd i strwythurau addysg a hyfforddiant amlldisgyblaethol</p>	Hirdymor	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC • Gweithrediaeth y GIG

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
2.4 Deall a gwella ansawdd gofal fferyllol yn barhaus		
Dylai Grŵp Cymheiriaid y Prif Fferyllwyr gomisiynu gwaith diweddarau ac ailffocysu'r Strategaeth Ymchwil Fferylliaeth yng Nghymru sy'n cyd-fynd ag argymhellion yr adolygiad annibynnol	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Prif fferyllwyr • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru • SAUau
Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau Iechyd, SAUau, ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i ddatblygu rhwydwaith o fentoriaid ymchwil ar gyfer gweithwyr proffesiynol fferylliaeth	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Llywodraeth Cymru • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • SAUau • Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Dylai cynlluniau swyddi safonedig ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol gynnwys amser wedi'i neilltuo i gymryd rhan mewn gwaith ymchwil a datblygu a'i oruchwylio, gan sicrhau cymesuredd â chyfnodau gyrfa unigolion	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
<p>Dylai Grŵp Cymheiriaid y Prif Fferyllwyr presennol sefydlu rhaglen waith gydag AaGIC i sefydlu rhaglen dreigl barhaus ar gyfer gwerthuso anghenion y gweithlu rheoli fferyllfeydd a meddyginiaethau yn ffurfiol yn unol â thechnolegau newydd a blaenoriaethau'r GIG</p>	<p>Tymor Byr</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Prif fferyllwyr • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC • Gweithrediaeth y GIG • Llywodraeth Cymru

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
3. Cryfhau ansawdd, arweinyddiaeth fferyllfeydd, a llywodraethu ar bob lefel		
3.1 Gwella craffu sefydliadol ar ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau fferylliaeth		
Dylai byrddau iechyd sicrhau eu bod yn cyflogi Cyfarwyddwr Fferylliaeth sy'n atebol am ansawdd y gwasanaethau fferylliaeth glinigol a thechnegol sy'n cael eu darparu gan y sefydliad	Ar unwaith	<ul style="list-style-type: none"> • Llywodraeth Cymru • Byrddau Iechyd • Gweithrediaeth y GIG • Llywodraeth Cymru
Dylai'r Cyfarwyddwr Fferylliaeth fod yn aelod o uwch dîm rheoli'r bwrdd iechyd, rhaid iddo adrodd i gyfarwyddwr gweithredol y bwrdd iechyd, a bydd yn gallu codi materion yn ymwneud ag ansawdd neu ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol a meddyginiaethau yn y sefydliad, yn uniongyrchol i'r bwrdd	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Gweithrediaeth y GIG • Llywodraeth Cymru
Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gytuno ar drefniadau i adrodd fel mater o drefn ar warantu meddyginiaethau a materion ansawdd a diogelwch fferyllfeydd i fwrdd y sefydliad neu is-bwyllgor perthnasol y bwrdd	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG • Llywodraeth Cymru

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sicrhau bod gwasanaethau fferyllol yn cael eu cynnwys yn eu cylch cynllunio strategol	Ar unwaith	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG
Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gweithrediaeth y GIG, byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre i ddatblygu a chyflwyno dangosyddion perfformiad allweddol gan gynnwys y rhai sy'n deillio o systemau digidol, sy'n dangos effeithiolrwydd gwasanaethau fferylliaeth, ar wella ansawdd gofal	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG • Iechyd a Gofal Digidol Cymru
3.2 Arweinyddiaeth y system fferylliaeth		
Dylai Cyfarwyddwr Fferylliaeth pob bwrdd iechyd fod yn gyfrifol am greu cynllun ar gyfer rheoli fferyllfeydd a meddyginiaethau yn y bwrdd iechyd, sy'n nodi sut mae timau fferylliaeth yn ymateb i flaenoriaethau perthnasol Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Gweithrediaeth y GIG • Llywodraeth Cymru
Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre adolygu trefniadau uwch arweinyddiaeth a rheoli fferylliaeth, gan gynnwys teitlau swyddi, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion rheoleiddiol newydd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ac anghenion rolau clinigol cynyddol	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
3.3 Rheoli talent a datblygu arweinwyr y dyfodol ym maes fferylliaeth		
Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag AaGIC ac Academi Wales i sicrhau bod darpar arweinwyr ym maes fferylliaeth yn gallu manteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd amlddisgyblaethol a sector cyhoeddus er mwyn datblygu arweinyddiaeth, gan gynnwys Cronfa Talent Darpar Swyddogion Gweithredol AaGIC a Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Academi Wales	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Llywodraeth Cymru • AaGIC • Academi Wales
Rhaid i fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gyflwyno'r camau gweithredu a nodwyd yn adroddiad Datblygu Uwch Arweinwyr mewn Fferylliaeth AaGIC	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC • Gweithrediaeth y GIG • Llywodraeth Cymru
Dylai AaGIC weithio gyda byrddau lechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre i hyrwyddo ymwybyddiaeth o adnoddau'r platfform arweinyddiaeth "Gwella" er mwyn hyrwyddo proses datblygu arweinyddiaeth yn ystod pob cam o yrfa a datblygiad personol gweithwyr proffesiynol fferylliaeth	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC
Bydd AaGIC yn adolygu canlyniadau cymryd rhan yn rhaglen y Ganolfan ar gyfer Addysg Ôl-radd Fferylliaeth (CPPE), "Datblygiad Arweinwyr Fferylliaeth y Prif Swyddog Fferyllol", gyda'r bwriad o sefydlu rhaglen dreigl i ddatblygu Cyfarwyddwyr Fferylliaeth GIG Cymru yn y dyfodol	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • AaGIC

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
3.4 Arweinyddiaeth glinigol		
Bydd AaGIC yn arwain y gwaith o ddatblygu strategaeth fferyllwyr ymgynghorol a chynllun gweithredu, a dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sefydlu cynllun ar gyfer olyniaeth ar gyfer rolau fferyllwyr ymarfer uwch ac ymgynghorol yn eu cynlluniau gweithlu priodol	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC
Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac AaGIC i sefydlu trefniadau llywodraethu clinigol ar gyfer pob fferylllydd-bresgripsiynydd a'r holl bresgripsiynwyr anfeddygol eraill, a fydd yn cynnwys gweithredu safonau Presgripsiynu Anfeddygol GIG Cymru y cytunwyd arnynt, cyfeirio at ganllawiau a hwyluso presgripsiynwyr i ehangu eu cwmpas ymarfer	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC • Llywodraeth Cymru
Dylai Grŵp Cyheiriaid y Prif Fferyllwyr adolygu'r trefniadau ar gyfer rhannu a mabwysiadu enghreifftiau o arferion gorau rhwng byrddau iechyd. Dylid canolbwyntio'n benodol ar safoni gwasanaethau fferylliaeth glinigol ym meysydd gofal brys, gofal argyfwng, a gofal cyn derbyn/rhagsefydlu o fewn 12 mis cyntaf cyhoeddi'r cynllun hwn	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Prif Fferyllwyr

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
4. Gwireddu potensial datblygiadau digidol, awtomeiddio a datblygiadau technolegol eraill er mwyn trawsnewid sut mae gofal fferyllol yn cael ei ddarparu		
4.1 Defnyddio data a thechnoleg yn well i flaenoriaethu gofal fferyllol		
Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre barhau i weithio gyda'r Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol (DMTP) i ddatblygu'r broses o gyflwyno systemau presgripsiynu a chyflenwi meddyginiaethau yn electronig (ePMA) ar gyfer pob ysbyty yng Nghymru yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt gan gynnwys sicrhau bod gweithwyr proffesiynol fferylliaeth yn gallu manteisio ar y galedwedd TG sydd ei hangen i wireddu manteision systemau digidol	Ar unwaith	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Gweithrediaeth y GIG • Iechyd a Gofal Digidol Cymru • Llywodraeth Cymru
Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre roi blaenoriaeth i ddatblygu sgiliau digidol a thechnolegol fel rhan o hyfforddiant y gweithlu fferylliaeth a sefydlu rolau proffesiynol fferylliaeth gwybodeg glinigol yn eu sefydliadau	Tymor Byr	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Iechyd a Gofal Digidol Cymru • AaGIC
Dylai Grŵp Cymheiriaid y Prif Fferyllwyr weithio gyda DMTP i sefydlu gweithgor oes fer i gytuno ar sut y gellir defnyddio systemau ePMA a gwaith i ddatblygu'r Cofnod Meddyginiaethau a Rennir er mwyn darparu'r cymorth gorau posibl ar gyfer blaenoriaethu a chynllunio gofal fferyllol gan gynnwys gwasanaethau allgymorth i wella gofal cymunedol (wardiau rhithwir)	Ar unwaith	<ul style="list-style-type: none"> • Prif fferyllwyr • Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
4.2 Gwireddu manteision defnydd ehangach o waith arloesol i lywio penderfyniadau therapiwtig		
<p>Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre fod â chynlluniau ar waith i gefnogi'r defnydd ehangach o brofion ffarmacogenomig, gan gynnwys rôl gweithwyr proffesiynol fferylliaeth wrth ddatblygu panel ffarmacogenomeg ledled Cymru</p>	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Partneriaeth Genomeg Cymru • Gwasanaeth Geneteg Meddygol Cymru Gyfan • AaGIC • Gweithrediaeth y GIG
<p>Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre weithio gydag AaGIC i ddarparu cyfleoedd i ddatblygu ymwybyddiaeth o dechnolegau arloesol (e.e. Deallusrwydd Artiffisial a ffarmacogenomeg) sy'n effeithio ar benderfyniadau therapiwtig gan dimau fferylliaeth. Dylai hyn gynnwys, ymysg pethau eraill, annog mwy o weithwyr proffesiynol fferylliaeth i ymgymryd â rhaglenni ôl-raddedig mewn meddygaeth genomig ym Mhrifysgol Abertawe a Phrifysgol Bangor</p>	Tymor Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC • Prifysgol Abertawe • Prifysgol Bangor • Partneriaeth Genomeg Cymru

Cam Gweithredu Arfaethedig	Blaenoriaeth (Ar unwaith, Tymor Byr, Tymor Canolig, Hirdymor)	Rhanddeiliaid
<p>Dylai byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ddatblygu rolau fferyllwyr ymarfer uwch ac ymgynghorol ar gyfer ffarmacogenomeg er mwyn arwain y gwaith o ddatblygu a chyflwyno cynlluniau ffarmacogenomeg ledled y GIG</p>	<p>Hirdymor</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Iechyd • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • AaGIC • Partneriaeth Genomeg Cymru • Gwasanaeth Geneteg Meddygol Cymru Gyfan